

## **Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf**

**Arolygiad lle Rhoddwyd Rhybudd  
Cydydffurfio â Rheoliadau  
Ymbelydredd Ïoneiddio  
(Datguddio Meddygol) 2000 a  
Diwygiadau 2006 a 2011 (IR(ME)R)**

**Dyddiad yr Arolygiad:  
18 a 19 Gorffennaf 2012**

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Tŷ Bevan  
Parc Busnes Caerffili  
Heol y Fan  
CAERFFILI  
CF83 3ED**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn:** 029 20 928850  
**Ebost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 029 20 928877  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

<b>Pennod</b>		<b>Rhif y Dudalen</b>
1.	Cyflwyniad	1
2.	Crynodeb Gweithredol	3
3.	Canfyddiadau	5
	Dyletswyddau'r Cyflogwr	5
	Dyletswyddau'r Ymarferydd, Gweithredwr a'r Atgyfeiriwr	7
	Cyfiawnhau Achosion Unigol o Ddatguddio Meddygol	10
	Optimeiddio	12
	Archwiliadau Clinigol	13
	Cyngor Arbenigol	14
	Offer	14
	Hyfforddiant	15
4.	Argymhellion	16
5.	Camau Nesaf	20
	<b>Atodiad A</b> Swyddogaeth a Chyfrifoldeb Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru	21
	<b>Atodiad B</b> Cyd-destun IR(ME)R	23
	<b>Atodiad C</b> Cylch Gorchwyl	24
	<b>Atodiad Ch</b> Cynllun Gweithredu	28

# 1. Cyflwyniad

1.1 Cynhaliwyd arolygiad ar 18 ac 19 Gorffennaf i sicrhau bod y gwaith delweddu diagnostig yn Adran Radioleg Ysbyty'r Tywysog Siarl, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf yn cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 a diwygiadau i'r rheoliadau yn 2006 a 2011. Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a oedd yn arwain yr adolygiad gyda chefnogaeth yr Asiantaeth Diogelu Iechyd (ADI).

## Methodoleg Arolygu

1.2 Dewiswyd y sefydliad gofal iechyd fel rhan o'r rhaglen flynyddol o arolygiadau IR(ME)R lle rhoddwyd rhybudd. Hwn yw'r tro cyntaf i AGIC gynnal adolygiad IR(ME)R yn y Bwrdd Iechyd Lleol hwn.

1.3 Rhoddwyd wyth wythnos o rybudd am yr arolygiad i'r sefydliad, a gofynnwyd iddo lenwi ffurflen hunanasesu i'w dychwelyd a chasglu tystiolaeth ategol. Defnyddiwyd y ffurflen hunanasesu hon yn sail i'r ymweliad i arolygu'r gwaith delweddu diagnostig.

1.4 Yn ystod yr ymweliad â'r safle, trafododd y tîm arolygu'r wybodaeth a oedd wedi ei nodi yn y ffurflen hunanasesu gyda staff allweddol. Adolygwyd polisiau, gweithdrefnau, protocolau, cofnodion y cleifion (a adolygwyd dan ddull taith y claf) a chofnodion y staff. Buom hefyd yn arsylwi yn y lleoliadau clinigol a chynhaliwyd cyfweiliadau gyda chroestoriad o staff er mwyn sefydlu a oedd y wybodaeth a nodwyd yn y ffurflen hunanasesu a gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr yn cael eu hadlewyrchu yn ymarferol yn yr arferion gwaith.

1.5 Darparwyd canfyddiadau manwl ac argymhellion cysylltiedig drwy sylwadau ar lafar drwy gydol yr arolygiad ac yn fwy ffurfiol yn y cyfarfod adborth a gynhaliwyd ar ail ddiwrnod yr ymweliad. Hysbyswyd Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf hefyd am y materion allweddol a oedd yn codi o'r arolygiad, mewn llythyr i'r rheolwyr, bythefnos ar ôl yr arolygiad, er mwyn iddynt gymryd camau ar unwaith i weithredu'r argymhellion.

## Cefndir yr Adran

1.6 Mae Ysbyty'r Tywysog Siarl yn rhan o Fwrdd Iechyd Lleol (BILI) Cwm Taf ac mae'n gwasanaethu rhan ogleddol y BILI.

1.7 Ar adeg yr arolygiad, roedd y ffurflen hunanasesu yn nodi mai nifer yr archwiliadau a gynhaliwyd gan Adran Radioleg Ysbyty'r Tywysog Siarl yn ystod y flwyddyn oedd; 80,615 radioleg gyffredinol, 11,033 o Sganiau Tomograffeg Cyfrifiadurol (CT), 740 fflworosgopi, 812 mamograffeg ar sail symptomau, 4,328 deintyddol a 15 o driniaethau radioleg ymyriadol. Roedd yr arolygiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar sganiau radioleg gyffredinol (pelydr-x) a sganiau CT a gynhaliwyd yn yr adran delweddu diagnostig.

1.8 Mae'r trefniadau staffio yn cynnwys 4.94 cyfwerth ag amser cyflawn o radiolegwyr ymgynghorol, saith uwch ymarferydd, 18.8 o radiograffwyr, dau oruchwyliwr diogelu rhag ymbelydredd a thri myfyriwr. Cyflogir yr Arbenigwyr Ffiseg Feddygol ar gontract drwy gytundeb ag Ymddiriedolaeth GIG Felindre, yn hytrach nag yn uniongyrchol gan Ysbyty'r Tywysog Siarl. Nododd Ysbyty'r Tywysog Siarl fod cyfradd uchel o swyddi gwag wedi bod yn adrannau radioleg Cwm Taf dros y misoedd diwethaf ond eu bod bellach yn recriwtio a bod y swyddi i'w llenwi.

1.9 Mae staff Ysbyty'r Tywysog Siarl hefyd yn darparu cefnogaeth i ddau safle ychwanegol yn BILI Cwm Taf; Ysbyty Cwm Cynon, sef ysbyty newydd a agorodd eleni, ac Ysbyty Cymunedol ac Iechyd Meddwl Tudful Sant.

1.10 Yn ystod yr ymweliad, cafwyd cyfarfod â'r Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddoniaeth Iechyd, y Cyfarwyddwr Clinigol ar gyfer Radioleg, y Radiograffydd Arolygu, dau Arbenigwr Ffiseg Feddygol a Radiograffydd Arolygu o Ysbyty Brenhinol Morgannwg (yn rhanbarth deheuol Cwm Taf) yn ogystal â chyfweld trawstoriad o'r staff radioleg.

## 2. Crynodeb Gweithredol

2.1 O ganlyniad i'r arolygiad hwn, dim ond peth sicrwydd y mae AGIC yn gallu ei roi bod Adran Radioleg Ysbyty'r Tywysog Siarl a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn fwy cyffredinol yn cydymffurfio â IR(ME)R.

2.2 Derbyniwyd peth tystiolaeth gan Ysbyty'r Tywysog Siarl a oedd yn dangos bod fframwaith a chyfres o weithdrefnau wedi eu sefydlu, ond nid oeddynt yn ddigonol ac nid oeddynt yn bodloni holl ofynion IR(ME)R. Mae rhai o'r meysydd allweddol y mae angen eu cryfhau, a nodwyd gan yr arolygiad, yn cynnwys:

- y broses o sicrhau bod gan y rhai â dyletswydd yr hawliau priodol i wneud y tasgau y maent yn eu cyflawni;
- hyfforddiant IR(ME)R i ymarferwyr a gweithredwyr, a chofnodion hyfforddi gan gynnwys datblygiad proffesiynol parhaus; a
- gwella'r drefn optimeiddio drwy sefydlu lefelau cyfeirio diagnostig a chynnal archwiliadau clinigol ar y dos.

2.3 Dangosodd trafodaethau gyda'r staff y cydymffurfir â IR(ME)R yn gyffredinol. Fodd bynnag, tan fod y fframwaith IR(ME)R gofynnol wedi ei sefydlu, mae risg posibl o ddiffyg cydymffurfio ac anghysondeb o ran dull gwaith, ac yn y pen draw gallai cleifion gael eu datguddio i ymbelydredd diangen.

2.4 Fodd bynnag, nodwyd meysydd o arfer nodedig; roeddem yn falch o nodi y ceir dull gwaith wedi ei gydgyssylltu trwy'r BILI mewn meysydd megis archwiliadau clinigol, safoni protocolau a rhaglen preceptorïaeth.

2.5 Hefyd, roedd cynrychiolwr o Ysbyty Brenhinol Morgannwg (de Cwm Taf) yn yr arolygiad er mwyn i'r gwersi a ddysgwyd yn ystod yr arolygiad gael eu rhannu a'u gweithredu trwy'r Bwrdd Iechyd yn brydlon.

2.6 Dymunwn ddiolch i staff yr Adran Radioleg yn Ysbyty'r Tywysog Siarl am eu cydweithrediad a'u cymorth yn ystod ein hadolygiad.

2.7 Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar wefan AGIC [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk) ar adeg ei gyhoeddi.

### 3. Canfyddiadau

3.1 Rydym wedi strwythuro ein canfyddiadau o'r arolygiad ar feysydd allweddol IR(ME)R a thaith y claf. Mae'r argymhellion sy'n deillio o'r canfyddiadau wedi eu cynnwys yn Adran 4 yr adroddiad hwn.

#### Dyletswyddau'r Cyflogwr

3.2 Mae IR(ME)R yn nodi mai'r cyflogwr yw unrhyw berson sy'n cynnal (heblaw am fel cyflogai) gweithdrefnau datguddio meddygol mewn man penodol lle mae offer radioleg wedi ei osod. Yn achos BILI Cwm Taf y Prif Weithredwr yw'r cyflogwr.

3.3 Mae'r Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddoniaeth Iechyd (sy'n cynnwys yr Adran Radioleg) yn uniongyrchol atebol i'r Prif Weithredwr ac mae'n Gadeirydd ar y Grŵp Diogelwch Ymbelydredd. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylid amlinellu yn eglur y dyletswyddau sydd wedi eu dirprwyo gan y cyflogwr fel rhan o weithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr, i sicrhau bod y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau yn eglur ac yn cael eu gweithredu yn yr arferion gwaith.

#### Gweithdrefnau a Phrotocolau

3.4 Mae'n ofynnol dan y Rheoliadau i'r cyflogwr sefydlu gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig.

3.5 Mae'r BILI wedi sefydlu polisi '*Defnydd Meddygol o Ymbelydredd Ïoneiddio*' a '*Pholisïau a Gweithdrefnau'r Cyflogwr ar gyfer yr Adran Radioleg*' i bob un o leoliadau Cwm Taf, gan gynnwys Ysbyty'r Tywysog Siarl. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn bodloni gofynion IR(ME)R yn uniongyrchol i sefydlu gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig.



3.6 Nid ystyriwyd bod y polisiau a'r gweithdrefnau yn addas ar gyfer eu diben gan nad oeddynt:

- bob amser yn adlewyrchu gofynion y Rheoliadau'n gywir gan gynnwys diwygiadau 2006 a 2011;
- bob amser yn adlewyrchu'r arferion gwaith lleol;
- yn cynnwys digon o fanylion ynglŷn â gwahanol sefyllfaoedd a allai ddigwydd, pan fyddai'r angen mwyaf am weithdrefnau;
- yn bodloni'r gofyniad i sicrhau ansawdd y ddogfen, h.y. bod rheolaeth dros y fersiwn, a bod dyddiadau adolygu priodol neu awdur y ddogfen wedi'i nodi;
- yn adlewyrchu'r gwahaniaethau o ran arferion gwaith yng ngwahanol leoliadau Cwm Taf;
- yn cynnwys safleoedd ategol Cwm Taf sydd hefyd yn defnyddio ymbelydredd ïoneiddio; ac
- bob amser yn gyson, rhwng y polisi a'r gweithdrefnau.

3.7 Mae'r Rheoliadau'n nodi y dylid sefydlu protocolau ar gyfer pob math o arfer radioleg ar gyfer pob darn o offer.

3.8 Mae Ysbyty'r Tywysog Siarl, ar y cyd ag Ysbyty Brenhinol Morgannwg, wedi sefydlu canllawiau '*Golwg Safonol*' yn ddiweddar; gellid ystyried y rhain yn sail i'r protocolau, ond nid ydynt yn cynnwys digon o fanylion ar hyn o bryd ar gyfer arferion radioleg safonol.

### Hysbysu am Ddigwyddiadau

3.9 Mae IR(ME)R yn nodi y dylai'r sefydliad gofal iechyd gynnal ymchwiliad pan fo person, wrth gael datguddiad meddygol, yn derbyn llawer mwy o ymbelydredd ïoneiddio nag y bwriadwyd, ac y dylid hysbysu'r awdurdod priodol (AGIC) am hynny.

3.10 Mae Cwm Taf yn cadw cofnod o'r holl ddigwyddiadau yn ei adrannau Radioleg, nid yn unig y rhai y dylid hysbysu amdanynt dan IR(ME)R, gan gynnwys achosion fu bron a digwydd. Mae'r digwyddiadau hyn wedi eu categoreiddio yn ôl lleoliad a'r math o ddigwyddiad.

3.11 Rhwng mis Ebrill 2011 ac adeg yr arolygiad, roedd ysbyty'r Tywysog Siarl wedi hysbysu AGIC am un digwyddiad, a hynny ym mis Awst 2011. Roedd y digwyddiad yn ymwneud â chamgymeriad gya phrawf adnabod claf mewnol. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd AGIC wedi derbyn yr adroddiad yn dilyn yr ymchwiliad ac felly nid oedd wedi ei gynnwys yng nghwmpas yr adolygiad hwn.

### **Lefelau Cyfeirio Diagnostig**

3.12 Dan y Rheoliadau, mae'n ofynnol i'r cyflogwr sefydlu lefelau cyfeirio diagnostig ar gyfer archwiliadau radiodiagnostig gan nodi na ddisgwylir i'r lefelau fod yn fwy na hyn ar gyfer gweithdrefnau safonol pan ddefnyddir arfer da ac arferol o ran perfformiad diagnostig a technegol.

3.13 Ar adeg yr arolygiad, Lefelau Cyfeirio Diagnostig ar gyfer Tomograffeg Gyfrifiadurol (CT) yn unig a oedd gan Ysbyty'r Tywysog Siarl. Nid oedd Lefelau Cyfeirio Diagnostig cenedlaethol na lleol wedi eu sefydlu ar gyfer archwiliadau radiodiagnostig eraill.

### **Dyletswyddau'r Ymarferydd, y Gweithredwr a'r Atgyfeiriwr**

#### **Hawliau**

3.14 Mae'n ofynnol dan y Rheoliadau bod gan staff sydd â dyletswydd hawliau, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr ar gyfer y tasgau y maent yn eu cyflawni dan IR(ME)R.

3.15 Mae gan BILI Cwm Taf Fatics Hawliau sy'n cofnodi'r rhai sydd â dyletswyddau, ac sydd â hawliau i gyflawni swyddogaethau datguddio meddygol; ond nid oedd hwn yn ddull ffurfiol effeithiol o sicrhau hawliau.

3.16 Nid oeddem o'r farn bod y matrices yn addas ar gyfer ei ddiben oherwydd:

- nad oedd yn eglur pwy oedd yn dyfarnu'r hawl a pha un a oedd wedi ei awdurdodi i wneud hynny ar ran y cyflogwr;
- nad oedd gweithdrefnau eglur i gyd-fynd â'r matrices i egluro'r broses ac i ddarparu canllawiau i'r staff;
- bod yr hawliau'n cael eu dyfarnu yn ôl y math o weithdrefn radioleg ac nid oedd yn cynnwys swyddogaethau penodol megis adnabod y claf, cadarnhau statws bechiogrwydd a gwerthusiad clinigol;
- ei fod ar gyfer yr Adran Radioleg yn unig, ac nad oedd yn ymddangos bod hawliau gan bobl eraill a oedd â dyletswydd megis meddygon teulu fel atgyfeirwyr neu feddygon ar wardiau fel gweithredwyr ar gyfer gwerthusiad clinigol;
- bod gwahanol weithdrefnau radioleg wedi eu grwpio gyda'i gilydd megis Meddyginiaeth Niwclear ac MRI;
- ystyrir bod defnyddio categorïau Korner i ddiffinio cwmpas arferion gwaith yn amhriodol;
- nad oedd dyddiad ar y matrices ac nad oedd unrhyw dystiolaeth bod trefn ar gyfer rheoli'r fersiwn/adolygu; ac
- nad oedd dogfen hawliau arall yn gyson o ran y staff a nodir yn y matrices.

3.17 Nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod ymarferwyr a gweithredwyr yn derbyn asesiad cymhwysedd ffurfiol cyn cael hawliau, ac nid oedd tystiolaeth y cynhelir adolygiadau cyfnodol wedi hynny o gwmpas arfer y person â dyletswydd. Drwy drafodaeth gyda'r staff yn ystod yr arolygiad, nodwyd bod rhai ohonynt yn gwneud tasgau nad oes ganddynt yr hawl i'w cyflawni.

### Atgyfeiriwr

3.18 Mae IR(ME)R yn nodi mai gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sydd â hawl i atgyfeirio unigolion at ymarferydd ar gyfer datguddiad meddygol, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, yw atgyfeiriwr.

3.19 Mae Ysbyty'r Tywysog Siarl yn defnyddio'r System Wybodaeth Radioleg (RadIS), sydd â rhestr gyfunedig o atgyfeirwyr sydd â hawl i atgyfeirio. Os nad yw'r atgyfeiriwr ar y rhestr, bydd y staff yn derbyn esboniad gan y sefydliad gofal iechyd ac yn hysbysu uwch swyddogion o fewn Ysbyty'r Tywysog Siarl i gadarnhau bod gan yr atgyfeiriwr hawliau. Mae gan Ysbyty'r Tywysog Siarl system ar alwad y mae'r staff yn gallu ei defnyddio i gysylltu â Radiolegwyr Ymgynghorol neu Radiolegwyr Arolygu, pan fo angen.

3.20 Yn ddiweddar, mae Cwm Taf hefyd wedi datblygu ei ddull o gyfathrebu gyda meddygon teulu sy'n atgyfeirwyr. Mae Radiolegwyr yn Ysbyty'r Tywysog Siarl wedi cyfarfod ag atgyfeirwyr i ddarparu canllawiau ac i egluro gweithdrefnau, ac mae nodyn canllawiau *'Top Tips for Referrers to Radiology'* wedi ei lunio. Adolygwyd llythyron templed gennym hefyd, i hysbysu a chynghori atgyfeirwyr pan na chynhelir archwiliadau oherwydd atgyfeiriadau anghyflawn neu amhriodol.

3.21 Mae Cwm Taf wedi sefydlu ffurflen atgyfeirio sydd wedi ei chynllunio'n dda, ac sy'n cynnwys y wybodaeth briodol ynglŷn â chleifion, archwiliadau ac awdurdodiadau. Fodd bynnag, daethpwyd yn amlwg nad oedd y ffurflenni atgyfeirio'n cael eu llenwi ar gyfer gweithdrefnau radioleg mewn theatr, hyd yn oed mewn achosion o lawdriniaeth ddewisol; yn hytrach roedd amserlen y theatr yn cael ei defnyddio fel tystiolaeth o atgyfeiriad.

3.22 Mae gweithdrefnau atgyfeirio wedi eu datblygu ar gyfer y BILL sy'n disgrifio'r weithdrefn ar gyfer archwilio ceisiadau radiolegol a hefyd yn cynnwys cwmpas arfer yr atgyfeirwyr. Fodd bynnag canfuwyd nad yw'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys digon o fanylion ynglŷn â'r gwahanol fathau o atgyfeiriad h.y. theatr, yr adran ddamweiniau ac achosion brys, meddygol-gyfreithiol, ymchwil ac ati.

3.23 Dan IR(ME)R, mae rhwymedigaeth ar y cyflogwr i sefydlu argymhellion ynglŷn â'r meini prawf atgyfeirio a sicrhau eu bod ar gael ar gyfer yr atgyfeirwyr. Y meini prawf atgyfeirio a ddefnyddir gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf yw Canllawiau Coleg Brenhinol y Radiolegwyr *'Making the Best Use of Clinical Radiology'*, 6<sup>ed</sup> Argraffiad. Er ein bod yn cydnabod bod canllawiau'r Coleg yn arfer nodedig, maent bellach wedi

eu disodli gan iRefer (7<sup>fed</sup> argraffiad). Nodwyd bod trafodaethau'n parhau ar lefel y GIG yng Nghymru ynglŷn â phrynu'r canllawiau diwygiedig.

## Cyfiawnhau Achosion Unigol o Ddatguddio Meddygol

3.24 Dan y Rheoliadau, mae'n ofynnol cyfiawnhau ac awdurdodi pob achos o ddatguddio meddygol cyn y datguddiad. Yr ymarferydd sy'n gyfrifol am gyfiawnhau'r datguddio meddygol. Awdurdodi yw'r ffordd o ddangos bod y broses gyfiawnhau wedi ei chynnal a gellir gwneud hyn: un ai gan yr ymarferydd neu, pan fo canllawiau cyfiawnhau wedi eu defnyddio, gan weithredwr.

3.25 Y dull o gyfiawnhau y mae Ysbyty'r Tywysog Siarl wedi ei fabwysiadu ar gyfer pob archwiliad yw y dylent gael eu cyfiawnhau gan ymarferydd, ac nid gan weithredwr sy'n awdurdodi datguddiad gan ddefnyddio canllawiau a gyflwynwyd gan ymarferydd. Mae hyn yn golygu nad oes angen canllawiau cyfiawnhau. Fodd bynnag, roedd hyn yn wahanol i'r wybodaeth a ddarparwyd ar y ffurflen hunanasesu.

3.26 Mae achosion o ddatguddio meddygol sydd wedi eu hamserlennu yn cael eu neilltuo i weithredwyr drwy gofnod gwaith, a reolir o ddydd i ddydd gan yr ymarferydd sydd yn y lleoliad; mae'r ymarferydd yn llofnodi ffurflenni atgyfeirio hefyd i ddangos tystiolaeth o gyfiawnhad. Fodd bynnag, nodwyd bod archwiliadau'n cael eu cynnal yn gynnar yn y bore cyn i'r ymarferydd gyrraedd am y dydd, ac felly nid oeddynt wedi eu cyfiawnhau'n ffurfiol.

3.27 Adolygwyd detholiad o archwiliadau pan oedd y person â dyletswydd a gynhaliodd y gwerthusiad clinigol o'r delweddu wedi cwestiynu'r cyfiawnhad. Yn y tri archwiliad a adolygwyd, nodwyd bod yr atgyfeiriwr wedi gofyn am ddatguddio rhan o'r corff nad oedd yn uniongyrchol berthnasol i'r archwiliad, a'i fod wedi ei ddelweddu'n ddiangen.

## **Prawf Adnabod**

3.28 Mae'r Rheoliadau'n nodi y dylai gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer achosion o ddatguddio meddygol gynnwys gweithdrefnau i gael prawf adnabod priodol ar gyfer yr unigolyn sydd i'w ddatguddio i ymbelydredd ïoneiddio.

3.29 Trwy adolygu'r gweithdrefnau ysgrifenedig, nodwyd nad oeddynt yn cynnwys digon o wybodaeth ynglŷn â'r sefyllfaoedd hynny lle gallai fod yn fwy anodd cael cadarnhad o bwy yw'r claf. Byddai'r rhain yn cynnwys sefyllfaoedd megis cleifion nad Saesneg/ Cymraeg yw eu hiaith gyntaf, cleifion anymwybodol neu gleifion ag anabledd dysgu. Mae'n ymddangos hefyd nad yw'r gweithdrefnau presennol o bosibl yn berthnasol i feysydd y tu allan i'r Adran Radioleg megis deintyddiaeth, theatr a wardiau.

3.30 Trwy drafod gyda'r staff, cadarnhawyd eu bod yn deall y weithdrefn adnabod a'u bod yn ymwybodol o brosesau ychwanegol nad oedd wedi eu cynnwys yn y gweithdrefnau ysgrifenedig, megis bod cyfieithwyr ar gael.

## **Menywod o Oedran Cael Plant**

3.31 Mae IR(ME)R yn nodi y dylai'r gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer datguddio meddygol gynnwys gweithdrefn ar gyfer gofyn i fenywod o oed cael plant a ydynt yn feichiog neu a yw'n bosibl eu bod yn feichiog.

3.32 Wrth adolygu'r gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer gofyn i gleifion benywaidd a oeddynt yn feichiog, nodwyd eu bod yn cyfeirio at ganllawiau nad ydynt bellach yn gyfredol ac nad oeddynt yn cynnwys gwahanol sefyllfaoedd, ac ar adegau roedd yn ymddangos eu bod yn amhriodol. Trwy drafod gyda'r staff, nodwyd hefyd bod eu harferion yn ymddangos yn wahanol i'r gweithdrefnau ysgrifenedig.

3.33 Trwy drafod gyda'r staff, yn ystod yr arolygiad, nodwyd bod ganddynt ddealltwriaeth briodol o'r angen i holi ynglŷn â beichiogrwydd cyn cynnal archwiliadau perthnasol. Fodd bynnag, nid oedd yn eglur sut yr oeddynt i ddarparu

tystiolaeth o'r ymholiadau hynny ac nid oedd y gweithdrefnau ysgrifenedig yn egluro hynny.

## Optimeiddio

3.34 Mae'r Rheoliadau'n nodi y dylai'r gweithredwr a'r ymarferydd sicrhau bod dos y datguddiad mor isel ag yw'n rhesymol ymarferol ar gyfer y diben y'i bwriedir.

3.35 Trwy drafod gyda'r staff nodwyd bod gan Gwm Taf nifer o ddulliau rheoli ymarferol i ategu'r broses optimeiddio yn ystod yr archwiliadau, gan gynnwys:

- archwiliadau cyfnodol o'r offer gan Arbenigwyr Ffiseg Feddygol;
- dull o ddwysáu'r ddelwedd yn agos at y cleifion;
- lefelau cyfeirio diagnostig lleol ar gyfer CT;
- cyfarpar plwm i ddiogelu'r cleifion; ac
- addasu'r ffactorau datguddio o ganllawiau'r gwneuthurwyr.

3.36 Rydym yn deall bod staff Ysbyty'r Tywysog Siarl yn dileu delweddau nad ydynt yn rhai diagnostig ar hyn o bryd. Hefyd, roedd y dull o gofnodi delweddau a oedd wedi eu gwrthod ar y ffurflen gais yn anghyson, ac mae'n ymddangos nad oedd hyn yn cael ei fonitro. O ganlyniad i beidio â chofnodi'r holl ddelweddau, nid yw'r delweddau a wrthodwyd yn cael eu dadansoddi er mwyn monitro ac archwilio tueddiadau a phatrymau i ddarganfod pam mae datguddiadau'n cael eu hailadrodd. Gallai hyn fod o gymorth i ostwng nifer y delweddau a wrthodir a'r posibilrwydd o ddatguddio'r claf i ormod o ymbelydredd.

## Paediatreg

3.37 Mae IR(ME)R yn nodi y dylai'r ymarferydd a'r gweithredwr roi sylw arbennig i optimeiddio datguddiadau meddygol i blant.

3.38 Roedd gan Ysbyty'r Tywysog Siarl weithdrefnau nodedig wedi eu sefydlu ar gyfer delweddu cyn geni yn yr Uned Gofal Arbennig Babanod. Roedd sylw arbennig wedi ei roi i lefelau'r dos ac roedd y delweddau'n cael eu harchwilio'n rheolaidd.

3.39 Fodd bynnag, gan nad oes lefelau cyfeirio diagnostig wedi eu sefydlu drwy Ysbyty'r Tywysog Siarl, nid oes gan yr Adran Radioleg lefelau cyfeirio diagnostig penodol ar gyfer plant.

### **Gwerthusiad Clinigol**

3.40 Mae'r Rheoliadau'n nodi y dylai'r cyflogwr sicrhau bod gwerthusiad clinigol o ganlyniad pob achos o ddatguddio meddygol yn cael ei gofnodi yn unol â'r gweithdrefnau ysgrifenedig.

3.41 Roedd y gweithdrefnau ysgrifenedig yn cyfeirio at werthusiadau clinigol a gynhelir yn yr Adran Radioleg yn unig ac nid y rhai hynny a gynhelir mewn adrannau eraill.

### **Archwiliadau Clinigol**

3.42 Mae IR(ME)R yn nodi y dylai gweithdrefnau cyflogwr gynnwys darpariaeth ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol priodol.

3.43 Adolygwyd tystiolaeth ar gyfer Rhaglen Archwilio Glinigol Cwm Taf. Roedd y rhaglen hon yn cynnwys archwiliadau o achosion o enema bariwm i ganfod canser y perfedd, y defnydd o Angiograffeg CT ar yr Ysgyfaint pan amheuir Emboledd ar yr Ysgyfaint, delweddu anafiadau i'r pen a thechneg radiograffeg ar gyfer delweddau pelydr-x o'r ffêr. Roedd llwybrau rheoli yn cyd-fynd â'r rhaglen i gefnogi newidiadau i arfer clinigol yn dilyn yr adolygiadau.

3.44 Yn y blynyddoedd diweddar, mae archwiliad o ddos mamograffeg wedi ei gynnal gan Bron Brawf Cymru ac mae dau archwiliad o ddos CT wedi eu cynnal gan fyfyrwyr MSc fel rhan o'u blwyddyn olaf. Ni chynhaliwyd archwiliadau o ddos ffilm



cyffredinol yn ystod y blynyddoedd diweddar. Heb gynnal archwiliadau dos, nid yw Ysbyty'r Tywysog Siarl yn gallu sefydlu lefelau cyfeirio diagnostig lleol na dadansoddi pryd y mae archwiliadau'n gyson ddatguddio cleifion i fwy o ymbelydredd na'r lefelau y cytunwyd arnynt.

3.45 Nodwyd nad oedd ffactorau sy'n berthnasol i ddos y claf wedi eu cofnodi ar ffurf safonol e.e. DAP neu kV/ mAs. Roedd un ffurflen atgyfeirio yn defnyddio'r term '*dos safonol*', ond nid oedd yn amlwg beth oedd y dos safonol. Hefyd, nid oedd y dos yn cael ei gofnodi'n uniongyrchol yn y gronfa ddata, RadIS, ond yn hytrach yn cael ei nodi ar ffurflen atgyfeirio a'i sganio i'r gronfa ddata. Nid yw'r dull hwn yn caniatáu i Ysbyty'r Tywysog Siarl gynnal archwiliadau effeithiol o lefel y dos.

## Cyngor Arbenigol

3.46 Mae IR(ME)R yn nodi y dylai'r cyflogwr sicrhau bod Arbenigwr Ffiseg Feddygol yn cael ei gynnwys, fel bo'n briodol, ymhob achos o ddatguddio meddygol radiolegol.

3.47 Mae Contract Cytundeb Lefel Gwasanaeth wedi ei sefydlu er mwyn derbyn cyngor a chefnogaeth ynglŷn â diogelu rhag ymbelydredd gan ddau gydweithiwr o Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Mae hyn yn cynnwys swyddogaeth yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol. Ar adeg yr arolygiad, roedd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth diweddaraf wedi dod i ben ym mis Ebrill 2012 ac roedd proses ymgynghoriad ar y gweill.

## Offer

3.48 Mae'r Rheoliadau'n nodi y dylai'r cyflogwr gadw rhestr gyfredol o offer ar gyfer pob gosodiad radiolegol.

3.49 Darparodd Ysbyty'r Tywysog Siarl restr gyfredol o'r offer yn yr ysbyty, gan gynnwys manylion y gwneuthurwr, y model, rhif cyfresol, blwyddyn y gwneuthuriad a'r flwyddyn y'i gosodwyd.

3.50 Fodd bynnag, nodwyd mai'r offer a oedd yn darparu ymbelydredd ïoneiddio yn unig a oedd ar y rhestr, ac nad oedd yn cynnwys yr holl offer a allai effeithio ar y datguddio meddygol, megis chwistrellwyr pwysedd mewn CT.

## Hyfforddiant

3.51 Mae'n ofynnol dan y Rheoliadau bod yr holl ymarferwyr a'r gweithredwyr yn derbyn hyfforddiant digonol ar gyfer y tasgau a gyflawnir a bod y cyflogwr yn cadw cofnodion cyfredol o'r hyfforddiant hwn.

3.52 Nid oedd unrhyw gofnodion hyfforddi ar gyfer staff Ysbyty'r Tywysog Siarl, fel sy'n ofynnol dan IR(ME)R, ar gael i'w harchwilio. Bu'n bosibl i ni edrych ar y ffurflenni cais ar gyfer cyrsiau hyfforddi allanol perthnasol, ond ni welwyd unrhyw dystiolaeth i ddangos y sefydlwyd dull cynhwysfawr a strwythuredig o ddarparu hyfforddiant i'r staff. Yn benodol, nid oedd hyfforddiant penodol yn ymwneud â'r offer ar gael ar gyfer gweithredwyr, yn enwedig pan fo staff Ysbyty'r Tywysog Siarl yn gweithio mewn safleoedd ategol gan ddefnyddio offer gwahanol.

3.53 Ar adeg yr arolygiad, roedd nifer o aelodau staff newydd yn yr adran ac roedd Ysbyty'r Tywysog Siarl yn cyflwyno'r rhaglen preceptoriaeth a oedd wedi ei ddiwygio'n ddiweddar, ac a ddefnyddir yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nid oedd cyfeiriad at ddarparu copi o'r gweithdrefnau a'r protocolau ysgrifenedig fel canllawiau i newydd-ddyfodiaid.

## 4. Argymhellion

4.1 Mae'r argymhellion isod yn ymdrin ag unrhyw achos a nodwyd o ganlyniad i'r arolygiad o ddiffyg cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 a diwygiadau 2006 a 2011;

Rheoliad IR(ME)R	Canfyddiadau (Cyfeirnod y paragraff)	Argymhelliad
<p>Rheoliad 4(1)</p> <p>Atodlen 1</p> <p>Rheoliad 4(2)</p>	<p>3.3 – 3.8</p>	<p><b>Gweithdrefnau a Phrotocolau</b></p> <p>Rydym yn argymhell bod Cwm Taf yn adolygu'r polisi, y gweithdrefnau a'r protocolau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â IR(ME)R, eu bod yn cynnwys y wybodaeth ofynnol, eu bod yn addas ar gyfer eu diben, a bod ganddynt y modd priodol o reoli'r fersiwn a dyddiadau adolygu.</p> <p>Dylai'r staff gael eu cynnwys wrth ddatblygu'r dogfennau gwaith, sefydlu'r gweithdrefnau yn eu harferion gwaith, bod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r gweithdrefnau a'r protocolau a sicrhau eu bod yn deall.</p>
<p>Rheoliad 4(3)c a 4(6)</p> <p>Rheoliad 7(3)c</p> <p>Atodlen 1g</p>	<p>3.12 – 3.13 a 3.39</p>	<p><b>Lefelau Cyfeirio Diagnostig</b></p> <p>Rydym yn argymhell bod Cwm Taf yn sefydlu Lefelau Cyfeirio Diagnostig ar unwaith ar gyfer pob archwiliad arferol, gan gynnwys archwiliadau pediatrig, a gynhelir yn Ysbyty'r Tywysog Siarl a thrwy'r BILL.</p> <p>Pan fyddant wedi eu sefydlu, dylai gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr ddisgrifio'r broses o ymchwilio i achosion cyson o ddarparu mwy o ymbelydredd nag a nodir yn y Lefelau Cyfeirio Diagnostig.</p>
<p>Atodlen 1b</p>	<p>3.14 – 3.17</p>	<p><b>Hawliau</b></p> <p>Rydym yn argymhell y dylid egluro'r broses hawliau yng ngweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr er mwyn sicrhau bod gan y staff sydd â dyletswyddau yr hawliau priodol ar gyfer y tasgau y maent yn eu cyflawni.</p> <p>Dylid dangos yn eglur y cysylltiad yn ôl i'r cyflogwr.</p>

Rheoliad IR(ME)R	Canfyddiadau (Cyfeirnod y paragraff)	Argymhelliad
		Dylai'r staff fod yn ymwybodol o'u hawliau a'u cwmpas gwaith, a dylai hyn fod wedi ei sefydlu yn eu hyfforddiant a'u gwerthusiad.
<p>Rheoliad 4(3)a</p> <p>Rheoliad 5(5)</p> <p>Rheoliad 6(4)</p>	3.19 – 3.23	<p><b>Atgyfeirio</b></p> <p>Rydym yn argymhell y dylid sicrhau tystiolaeth ffurfiol o weithdrefnau atgyfeirio Ysbyty'r Tywysog Siarl ar gyfer y theatr, ac y dylai'r gweithdrefnau ysgrifenedig adlewyrchu'r broses hon.</p> <p>Rydym yn argymhell bod GIG Cymru'n prynu iRefer cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod yr arfer nodedig diweddaraf ar gael ar gyfer yr holl staff radioleg.</p>
Rheoliad 6(b)	3.25 – 3.27	<p><b>Canllawiau Cyfiawnhau</b></p> <p>Rydym yn argymhell bod Ysbyty'r Tywysog Siarl yn adolygu ei weithdrefnau presennol ynglŷn â chyfiawnhau ac awdurdodi.</p> <p>Dylai Ysbyty'r Tywysog Siarl ystyried a ddylai rhai o'r staff sydd â hawliau fel gweithredwyr ar hyn o bryd fod â hawliau fel ymarferwyr gyda chwmpas arfer wedi ei ddiffinio'n eglur, neu sefydlu canllawiau cyfiawnhau ar gyfer eu harchwiliadau.</p> <p>Dylid sicrhau bod y staff yn ymwybodol a oes ganddynt hawliau i gyfiawnhau fel ymarferydd neu a ddylent gyfeirio at y canllawiau cyfiawnhau wrth awdurdodi archwiliadau.</p>
Atodlen 1a	3.29	<p><b>Prawf Adnabod</b></p> <p>Rydym yn argymhell bod BILI Cwm Taf yn datblygu'r gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer adnabod cleifion er mwyn cynnwys y sefyllfaoedd amrywiol pan nad yw'n bosibl defnyddio'r dulliau adnabod arferol.</p> <p>Dylid sicrhau bod y staff perthnasol yn ymwybodol o'r gweithdrefnau hyn.</p>

Rheoliad IR(ME)R	Canfyddiadau (Cyfeirnod y paragraff)	Argymhelliad
Rheoliad 6(e) Atodlen 1d	3.32 – 3.33	<p><b>Menywod o Oedran Cael Plant</b></p> <p>Rydym yn argymell bod BILI Cwm Taf yn adolygu'r gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer 'holi ynglŷn â beichiogrwydd' i sicrhau eu bod yn gynhwysfawr, yn briodol ac yn disgrifio'n eglur sut y dylid cofnodi ymholiadau am feichiogrwydd.</p> <p>Dylid sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau hyn.</p>
Rheoliad 7 Atodlen 1f	3.36	<p><b>Dadansoddi Delweddau a Wrthodir</b></p> <p>Rydym yn argymell na ddylai Ysbyty'r Tywysog Siarl ddileu unrhyw ddelweddau nad ydynt yn rhai diagnostig. Yn hytrach, dylai gofnodi, monitro, dadansoddi a gwerthuso unrhyw ddelweddau a wrthodir fel rhan o raglen rheoli ansawdd.</p> <p>Dylid nodi'r diweddariad hwn i'r arferion gwaith yn y gweithdrefnau ysgrifenedig hefyd a dylid hysbysu'r staff, nid yn unig y rhai hynny yn yr Adran Radioleg.</p>
Rheoliad 7(8) Rheoliad 8 Atodlen 1j Atodlen 1f	3.44 – 3.45	<p><b>Cofnodi Dos</b></p> <p>Rydym yn argymell y dylid amlinellu dull safonol o gofnodi dos yn y gweithdrefnau ysgrifenedig ac y dylid sefydlu system i sicrhau bod y staff yn mabwysiadu'r arfer hwn.</p> <p>Rydym yn argymell bod y System Wybodaeth radioleg RadIS yn cael ei harchwilio fel rhan o raglen dreigl er mwyn chwilio am dueddiadau a phatrymau o ran lefel y dos ar gyfer pob archwiliad radioleg.</p>
Rheoliad 9	3.47	<p><b>Cyngor Arbenigol</b></p> <p>Rydym yn argymell bod y Cytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Ymddiriedolaeth GIG Felindre ar gyfer swyddogaeth yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol yn cael ei adnewyddu'n brydlon.</p>

Rheoliad IR(ME)R	Canfyddiadau (Cyfeirnod y paragraff)	Argymhelliad
Rheoliad 10(1)	3.50	<p><b>Offer</b></p> <p>Rydym yn argymhell bod y rhestr offer yn cael ei diweddarau i gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- yr holl offer sy'n darparu ymbelydredd ïoneiddio ac yn rheoli faint o ymbelydredd ïoneiddio y datguddir y claf iddo, a'r</li> <li>- offer ym mhob safle ychwanegol o eiddo Cwm Taf, gan ei fod yn gyfrifoldeb i'r cyflogwr.</li> <li>-</li> </ul>
Rheoliad 11 Atodlen 2	3.52 – 3.53	<p><b>Hyfforddiant</b></p> <p>Rydym yn argymhell bod Cwm Taf yn sefydlu rhaglen hyfforddiant IR(ME)R briodol ar gyfer yr holl ymarferwyr a'r gweithredwyr. Dylai hon gynnwys, fel sy'n briodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- datblygiad proffesiynol parhaus a ddilynir ar ôl derbyn eu cymwysterau,</li> <li>- hyfforddiant ynglŷn ag offer newydd ac offer na ddefnyddir yn aml,</li> <li>- technegau/dulliau newydd.</li> </ul> <p>Dylai Cwm Taf gadw cofnodion hyfforddi cyfredol, sy'n dangos bod y staff wedi derbyn hyfforddiant digonol ar gyfer y tasgau y mae ganddynt yr hawliau i'w cyflawni.</p>

## 5. Camau Nesaf

5.1 Mae'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi derbyn yr holl ganfyddiadau a nodir yn yr adroddiad ac wedi datblygu cynllun gweithredu i ymdrin â'r materion a godwyd (wedi ei gysylltu wrth yr adroddiad hwn yn Atodlen CH).

5.2 Mae'r BILI wedi cadarnhau y bydd yr holl gamau wedi eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2013, o fewn 8 mis i'r arolygiad. Mae AGIC wedi adolygu'r cynllun gweithredu ac mae'n fodlon y bydd y BILI yn ymdrin yn briodol â'r pryderon a godwyd gan yr arolygiad.

5.3 Bydd AGIC yn monitro'r hyn a gyflawnir gan BILI Cwm Taf o ran gweithredu'r camau y cytunwyd arnynt ac yn adolygu polisïau a gweithdrefnau pan fo'n briodol. Ar sail lefel y sicrwydd a dderbyniwn, bydd BILI Cwm Taf o bosib yn cael ei gynnwys fel rhan o adolygiad IR(ME)R dilynol yn y dyfodol hefyd.

## Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer pob gwasanaeth gofal iechyd yng Nghymru. Mae AGIC yn canolbwyntio'n bennaf ar:

- Wneud cyfraniad sylweddol i wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru pa un ai fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalydd, perthynas neu weithiwr cyflogedig.
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd yr adolygir gwasanaethau iechyd.
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, berthnasol a rhwydd cael gafael arni am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Prif swyddogaeth AGIC yw adolygu ac arolygu sefydliadau gofal iechyd y GIG a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru er mwyn rhoi sicrwydd annibynnol i gleifion, y cyhoedd, Llywodraeth Cymru a darparwyr gofal iechyd bod y gwasanaethau'n ddiogel ac o ansawdd da.

Adolygir gwasanaethau yn unol ag amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau cyhoeddedig. Yn rhan o'r gwaith hwn, bydd AGIC yn ceisio nodi a chefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau a'r camau sydd eu hangen i'w cyflawni. Os bydd angen, bydd AGIC yn cynnal ymchwiliadau ac adolygiadau arbennig pan ymddengys bod methiannau systematig wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd er mwyn sicrhau y gwneir gwelliannau ac y dysgir gwersi'n gyflym. Rydym hefyd yn diogelu buddiannau pobl y cyfyngir ar eu hawliau dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Yn ogystal, AGIC yw'r rheoleiddiwr ar gyfer darparwyr gofal iechyd annibynnol yng



Nghymru a'r Awdurdod Goruchwylio Lleol ar gyfer goruchwyliaeth statudol bydwragedd.

Mae AGIC yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru ac, er ei bod yn rhan o Lywodraeth Cymru, mae protocolau wedi'u sefydlu i ddiogelu ei hannibyniaeth weithredol. Mae prif swyddogaethau a chyfrifoldebau AGIC yn deillio o'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.
- Deddf Safonau Gofal 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig.
- Deddf Iechyd Meddwl 1983 a Deddf Iechyd Meddwl 2007.
- Goruchwyliaeth Statudol Bydwragedd fel y'i nodir yn Erthyglau 42 a 43 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001.
- Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 a Rheoliadau Diwygio 2006.

Mae AGIC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau a rheoleiddwyr eraill wrth gynnal adolygiadau traws-sector ym meysydd gofal cymdeithasol, addysg a chyfiawnder troseddol, ac wrth ddatblygu dulliau mwy cymesur a chydgyssylltiol o adolygu a rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru.

Mae AGIC yn un o 18 o sefydliadau'r DU a ddynodwyd, ar y cyd, gan Lywodraeth y DU yn 'Fecanwaith Ataliol Cenedlaethol' dan y Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn Erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol arall, er mwyn archwilio'r modd y caiff pobl sydd wedi colli eu rhyddid eu trin, a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau.

### Cyd-destun IR(ME)R

Daeth y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) (IR(ME)R) i rym yn 2000. Cyflwynodd rheoliadau 2000 a rheoliadau diwygiedig 2006 a 2011 fesurau ar gyfer diogelu iechyd unigolion rhag peryglon ymbelydredd Ïoneiddio o ran datguddio meddygol at ddibenion diagnostig, therapiwtig, iechyd galwedigaethol, sgrinio iechyd, ymchwil neu feddygol-gyfreithiol.

Mae IR(ME)R yn cyflwyno cyfrifoldebau i ymarferwyr, gweithredwyr, y rhai sy'n atgyfeirio cleifion ar gyfer datguddio meddygol a chyflogwyr y tri grŵp hyn. Mae dyletswydd ar y cyflogwr dan y rheoliadau i lunio fframwaith ar gyfer darparu ymbelydredd Ïoneiddio yn ddiogel, yn effeithlon ac yn effeithiol trwy ddarparu gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig. Mae'r cyflogwr hefyd yn gyfrifol dan y gyfraith am sicrhau bod y gweithdrefnau hyn ar waith ac y cydymffurfir â hwy.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r awdurdod priodol sydd â phwerau cysylltiedig ar gyfer arolygu a gorfodi IR(ME)R. Trosglwyddwyd y swyddogaeth hon i AGIC gan Weinidogion Cymru dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith.

Mae AGIC yn cynnal rhaglen o arolygiadau rheolaidd o wasanaethau sy'n cyflawni gweithgareddau a reoleiddir gan y IR(ME)R. Os na chydymffurfir â'r rheoliadau, gellir cyflwyno hysbysiadau gwella neu hysbysiadau gwahardd, neu gychwyn achosion troseddol.

### Cylch Gorchwyl

#### **Arolygiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o Gydymffurfiad â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)**

Yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) IR(ME)R 2000 a diwygiadau dilynol (2006 a 2011), bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn cynnal arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ysbyty'r Tywysog Siarl, Merthyr Tudful ym Mwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf.

Bydd yr arolygiad o ddelweddu diagnostig yn cael ei gynnal rhwng dydd Mercher 18 a dydd Iau 19 Gorffennaf 2012. Nicola Bresner, Rheolwr Arolygu, a Sarah Lewis, Rheolwr Arolygu Cynorthwyol, fydd yn arwain yr adolygiad, ac fe'u cynorthwyir gan arbenigwyr o'r Asiantaeth Diogelu Iechyd, Kathlyn Slack a Sarah Peters.

#### **Amcan**

Amcan yr arolygiad yw darparu sicrwydd bod egwyddorion IR(ME)R yn cael eu bodloni ar gyfer delweddu diagnostig yn Ysbyty'r Tywysog Siarl.

## Cwmpas

Bydd cwmpas yr arolygiad yn cynnwys adolygu:

- polisiâu, protocolau a gweithdrefnau gweithredu safonol, er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio, yn cael eu cyfathrebu ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd;
- swyddogaethau a chyfrifoldebau i sicrhau eu bod wedi'u diffinio'n eglur ac yn darparu ar gyfer gwahanu dyletswyddau'n briodol ymhlith ymarferwyr, gweithredwyr, atgyfeirwyr a chyflogwyr;
- hyfforddiant IR(ME)R a datblygiad proffesiynol parhaus i sicrhau ei fod yn briodol, yn cael ei gwblhau a'i gofnodi, ac ar gael yn rhwydd;
- digwyddiadau, er mwyn sicrhau yr hysbysir AGIC amdanynt mewn ffordd briodol a phrydlon, yr ymchwilir iddynt yn fewnol ac y gweithredir arnynt;
- yr amgylchedd er mwyn sicrhau ei fod yn lân, yn broffesiynol ac yn briodol.
- rhaglenni ymchwil, lle y'u cynhelir, er mwyn sicrhau y dilynwyd y gweithdrefnau cymeradwyo a gweithredu priodol;
- amgylchiadau eithriadol, pan na ddilynwyd polisiâu a phrotocolau, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau wedi cael eu hawdurdodi a'u cofnodi'n briodol; ac
- unrhyw faterion eraill yr ystyrir eu bod yn rhan o gwmpas IR(ME)R.

## Dull Gwaith

I gychwyn, byddwn yn gofyn i'r Rheolwyr gwblhau hunanasesiad a'i gyflwyno i AGIC 10 diwrnod gwaith cyn yr arolygiad. Bydd hyn yn ein galluogi i asesu fframwaith y polisiau a'r protocolau ymlaen llaw er mwyn cynnal profion priodol yn ystod yr arolygiad.

Yn ystod yr arolygiad, byddwn yn cyfweld aelodau staff ac yn sgwrsio â chleifion pan yn briodol, yn adolygu dogfennau perthnasol ac yn asesu'r amgylchedd.

Yna, byddwn yn dod i gasgliadau am addasrwydd y systemau a'r arferion gwaith sydd wedi'u sefydlu ac yn llunio argymhellion ar gyfer gwella, fel sy'n briodol.

## Adroddiad

Bydd y tîm arolygu yn cynnig adborth cychwynnol ar ddiwedd yr ymweliad. Bydd hyn yn cynnig cyfle i drafod cywirdeb ac unrhyw faterion a godir yn rhan o ganfyddiadau'r adolygiad.

Bydd adroddiad ysgrifenedig yn cael ei ddatblygu a'i rannu gyda chi er mwyn cael eich sylwadau ar y pwyntiau a godwyd a'r cywirdeb ffeithiol cyffredinol. Byddem yn disgwyl derbyn eich ymateb ffurfiol o fewn deng diwrnod gwaith. Byddwn yn rhoi'r adroddiad terfynol ar wefan AGIC ar ôl ei gyhoeddi.

Ar ôl cytuno ar yr adroddiad, cewch 20 diwrnod gwaith i ddatblygu cynllun gweithredu, sy'n mynd i'r afael â'r argymhellion a wneir yn yr adolygiad hwn ac yn eu rhoi ar waith. Mae hyn yn cynnig cyfle i gyhoeddi eich ymateb ysgrifenedig i'r argymhellion. Bydd y cynllun gweithredu yn cael ei roi ar wefan AGIC wedyn, ynghyd â'r adroddiad terfynol.

**AROLYGIATH GOFAL IECHYD CYMRU**

**2012-13**

## Cynllun Gweithredu

Cyfeirnod IR(ME)R	Argymhelliad	Camau Gweithredu'r BILI	Swyddog Cyfrifol	Dyddiad Targed
<p>Rheoliad 4(1)</p> <p>Atodlen 1</p> <p>Rheoliad 4(2)</p>	<p><b>Gweithdrefnau a Phrotocolau</b></p> <p>Rydym yn argymhell bod Cwm Taf yn adolygu'r polisi, y gweithdrefnau a'r protocolau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â IR(ME)R, eu bod yn cynnwys y wybodaeth ofynnol, eu bod yn addas ar gyfer eu diben, a bod ganddynt y modd priodol o reoli'r fersiwn a dyddiadau adolygu.</p> <p>Dylai'r staff gael eu cynnwys wrth ddatblygu'r dogfennau gwaith, sefydlu'r gweithdrefnau yn eu harferion gwaith, bod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r gweithdrefnau a'r protocolau a sicrhau eu bod yn deall.</p>	<p>Cwm Taf i adolygu ei bolisi, ei weithdrefnau a'i brotocolau gyda chynngor gan y Cynghorwr Diogelu rhag Ymbelydredd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag IR(ME)R.</p> <p>Cynnwys dull o reoli'r fersiwn a dyddiadau adolygu.</p> <p>Cynnwys aelodau staff wrth ddatblygu dogfennau.</p>	<p>Paul Johnston, Radiograffydd Arolygol.</p> <p>Chris Kalinka, Rheolwr y Gyfarwyddiaeth.</p>	<p>Gwaith wedi cychwyn.</p> <p>Dogfennau gweithdrefnau'r cyflogwr – Tachwedd 2012.</p> <p>Polisi – Rhagfyr 2012.</p>
<p>Rheoliadau 4(3) c a 4(6)</p> <p>Rheoliad 7(3)c</p> <p>Atodlen 1g</p>	<p><b>Lefelau Cyfeirio Diagnostig</b></p> <p>Rydym yn argymhell bod Cwm Taf yn sefydlu Lefelau Cyfeirio Diagnostig ar unwaith ar gyfer pob archwiliad arferol, gan gynnwys archwiliadau pediatrig, a gynhelir yn Ysbyty'r Tywysog Siarl a thrwy'r BILI.</p> <p>Pan fyddant wedi eu sefydlu, dylai gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr ddisgrifio'r broses o ymchwilio i achosion cyson o ddarparu mwy o ymbelydredd nag a</p>	<p>Mae Lefelau Cyfeirio Diagnostig cenedlaethol wedi'u sefydlu bellach.</p> <p>Lefelau Cyfeirio Diagnostig lleol wrthi'n cael eu datblygu –dosau'n cael eu cofnodi ar gyfer archwiliadau nodweddiadol.</p>	<p>Andrew Thomas, Goruchwyliwr Diogelu rhag Ymbelydredd.</p> <p>Stephen Davies, Goruchwyliwr Diogelu rhag Ymbelydredd.</p>	<p>Lefelau Cyfeirio Diagnostig cenedlaethol - wedi'u cwblhau.</p> <p>Lefelau Cyfeirio Diagnostig lleol: Rhagfyr 2012.</p>

Cyfeirnod IR(ME)R	Argymhelliad	Camau Gweithredu'r BILI	Swyddog Cyfrifol	Dyddiad Targed
	nodir yn y Lefelau Cyfeirio Diagnostig.	Gweithdrefnau ysgrifenedig i adlewyrchu camau gweithredu / ymchwilio i achosion o ddarparu mwy o ymbelydredd nag a nodir yn y Lefelau Cyfeirio Diagnostig.	Paul Johnston, Radiograffydd Arolygol.	Gweithdrefnau'r cyflogwr - Tachwedd 2012.
Atodlen 1b	<p><b>Hawliau</b></p> <p>Rydym yn argymhell y dylid egluro'r broses hawliau yng ngweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr er mwyn sicrhau bod gan y staff sydd â dyletswyddau yr hawliau priodol ar gyfer y tasgau y maent yn eu cyflawni.</p> <p>Dylid dangos yn eglur y cysylltiad yn ôl i'r cyflogwr.</p> <p>Dylai'r staff fod yn ymwybodol o'u hawliau a'u cwmpas gwaith, a dylai hyn fod wedi ei sefydlu yn eu hyfforddiant a'u gwerthusiad.</p>	<p>Datblygu gweithdrefn ysgrifenedig newydd.</p> <p>Cynnwys cysylltiad yn ôl i'r Cyflogwr / Prif Weithredwr ar gyfer gwahanol hawliau.</p> <p>Gwerthusiad ar y gweill – Mynd i'r afael â hawliau IR(ME)R pan yn briodol.</p>	Paul Johnston, Radiograffydd Arolygol.	Gweithdrefnau'r cyflogwr – Tachwedd 2012.
<p>Rheoliad 4(3)a</p> <p>Rheoliad 5(5)</p> <p>Rheoliad 6(4)</p>	<p><b>Atgyfeirio</b></p> <p>Rydym yn argymhell y dylid sicrhau tystiolaeth ffurfiol o weithdrefnau atgyfeirio Ysbyty'r Tywysog Siarl ar gyfer y theatr, ac y dylai'r gweithdrefnau ysgrifenedig adlewyrchu'r broses hon.</p> <p>Rydym yn argymhell bod GIG Cymru'n prynu iRefer cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod yr arfer nodedig diweddaraf ar gael ar gyfer yr holl staff radioleg.</p>	<p>Diwygio gweithdrefnau / trefn atgyfeirio i'r theatr yn Ysbyty'r Tywysog Siarl - gan gynnwys ffurflenni atgyfeirio ac ati.</p> <p>Prynwyd iRefer ac mae ar gael trwy ddolenni ar y we.</p>	<p>Paul Johnston, Radiograffydd Arolygol,</p> <p>Stephen Montoto, Radiograffydd Arolygol.</p>	<p>Tachwedd 2012.</p> <p>Cwblhawyd.</p>



Cyfeirnod IR(ME)R	Argymhelliad	Camau Gweithredu'r BILI	Swyddog Cyfrifol	Dyddiad Targed
Rheoliad 6(b)	<p><b>Canllawiau Cyfiawnhau</b></p> <p>Rydym yn argymhell bod Ysbyty'r Tywysog Siarl yn adolygu ei weithdrefnau presennol ynglŷn â chyfiawnhau ac awdurdodi.</p> <p>Dylai Ysbyty'r Tywysog Siarl ystyried a ddylai rhai o'r staff sydd â hawliau fel gweithredwyr ar hyn o bryd fod â hawliau fel ymarferwyr gyda chwmpas arfer wedi ei ddiffinio'n eglur, neu sefydlu canllawiau cyfiawnhau ar gyfer eu harchwiliadau.</p> <p>Dylid sicrhau bod y staff yn ymwybodol a oes ganddynt hawliau i gyfiawnhau fel ymarferydd neu a ddylent gyfeirio at y canllawiau cyfiawnhau wrth awdurdodi archwiliadau.</p>	<p>Gweithdrefnau cyfiawnhau / awdurdodi yn cael eu hadolygu.</p> <p>Aelodau staff Ysbyty'r Tywysog Siarl – canllawiau cyfiawnhau wedi'u sefydlu a'u hawdurdodi gan y Cyfarwyddwr Clinigol (yn enwedig ar gyfer sganio CT am 8.30 o'r gloch y bore).</p>	Paul Johnston, Radiograffydd Arolygol, Stephen Montoto, Radiograffydd Arolygol	Tachwedd 2012
Atodlen 1a	<p><b>Prawf adnabod</b></p> <p>Rydym yn argymhell bod BILI Cwm Taf yn datblygu'r gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer adnabod cleifion er mwyn cynnwys y sefyllfaoedd amrywiol pan nad yw'n bosibl defnyddio'r dulliau adnabod arferol.</p> <p>Dylid sicrhau bod y staff perthnasol yn ymwybodol o'r gweithdrefnau hyn.</p>	<p>Mae'r gweithdrefnau adnabod (a ddiwygiwyd ac sy'n cael eu hadolygu gan y Cynghorwr Diogelu rhag Ymbelydredd ar hyn o bryd) yn cynnwys sefyllfaoedd lle na ellir defnyddio dulliau adnabod syml.</p> <p>Bydd aelodau staff yn cael eu hyfforddi yn y gweithdrefnau newydd.</p>	Paul Johnston, Radiograffydd Arolygol.	Tachwedd 2012.

Cyfeirnod IR(ME)R	Argymhelliad	Camau Gweithredu'r BILI	Swyddog Cyfrifol	Dyddiad Targed
<p>Rheoliad 6(e)</p> <p>Atodlen 1d</p>	<p><b>Menywod o Oedran Cael Plant</b></p> <p>Rydym yn argymhell bod BILI Cwm Taf yn adolygu'r gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer 'holi ynglŷn â beichiogrwydd' i sicrhau eu bod yn gynhwysfawr, yn briodol ac yn disgrifio'n eglur sut y dylid cofnodi ymholiadau am feichiogrwydd.</p> <p>Dylid sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau hyn.</p>	<p>Bydd BILI Cwm Taf yn diwygio'r gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer holi ynglŷn â beichiogrwydd er mwyn sicrhau eu bod yn gynhwysfawr, yn briodol ac yn disgrifio'n eglur sut y dylid cofnodi ymholiadau am feichiogrwydd.</p> <p>Bydd aelodau staff yn cael eu hysbysu am y gweithdrefnau newydd.</p>	<p>Paul Johnston, Radiograffydd Arolygol.</p>	<p>Tachwedd 2012.</p>
<p>Rheoliad 7</p> <p>Atodlen 1f</p>	<p><b>Dadansoddi Delweddau a Wrthodir</b></p> <p>Rydym yn argymhell na ddylai Ysbyty'r Tywysog Siarl ddileu unrhyw ddelweddau nad ydynt yn rhai diagnostig. Yn hytrach, dylai gofnodi, monitro, dadansoddi a gwerthuso unrhyw ddelweddau a wrthodir fel rhan o raglen rheoli ansawdd.</p> <p>Dylid nodi'r diweddariad hwn i'r arferion gwaith yn y gweithdrefnau ysgrifenedig hefyd a dylid hysbysu'r staff, nid yn unig y rhai hynny yn yr Adran Radioleg.</p>	<p>Ystyried dewisiadau o ran system a threfn ymchwilio gyda darparwr presennol system archifo lluniau a chyfathrebu (PACS) Ysbyty'r Tywysog Siarl.</p> <p>Cyflwyno rhaglen yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Cwm Cynon ar gyfer dadansoddi delweddau a wrthodwyd.</p>	<p>Andrew Thomas, Goruchwyliwr Diogelu rhag Ymbelydredd.</p>	<p>Ionawr 2013.</p>

Cyfeirnod IR(ME)R	Argymhelliad	Camau Gweithredu'r BILI	Swyddog Cyfrifol	Dyddiad Targed
<p>Rheoliad 7(8)</p> <p>Rheoliad 8</p> <p>Atodlen 1j</p> <p>Atodlen 1f</p>	<p><b>Cofnodi Dos</b></p> <p>Rydym yn argymhell y dylid amlinellu dull safonol o gofnodi dos yn y gweithdrefnau ysgrifenedig ac y dylid sefydlu system i sicrhau bod y staff yn mabwysiadu'r arfer hwn.</p> <p>Rydym yn argymhell bod y System Wybodaeth radioleg RadIS yn cael ei harchwilio fel rhan o raglen dreigl er mwyn chwilio am dueddiadau a phatrymau o ran lefel y dos ar gyfer pob archwiliad radioleg.</p>	<p>Cofnodi Dosau – mae dosau ar gyfer CT a Fflworosgopeg / Meddyginiaeth Niwclear yn cael eu cofnodi yn RADIS.</p> <p>Ymchwilio i gofnodi yn RADIS ar gyfer delweddu cyffredinol – gan gynnwys y galedwedd a'r feddalwedd sydd eu hangen.</p>	<p>Phil Jones, Rheolwr PACS.</p>	<p>Cwblhawyd ar gyfer archwiliadau dos uchel yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg – i'w sefydlu yn Ysbyty'r Tywysog Siarl (Tach 2012).</p> <p>Ionawr 2013.</p>
<p>Rheoliad 9</p>	<p><b>Cyngor Arbenigol</b></p> <p>Rydym yn argymhell bod y Cytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Ymddiriedolaeth GIG Felindre ar gyfer swyddogaeth yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol yn cael ei adnewyddu'n brydlon.</p>	<p>Adnewyddir y Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn flynyddol - 1 Ebrill.</p> <p>Mae'r Arbenigwr Ffiseg Feddygol ar gael i Gwm Taf yn barhaus, ar gyfer cyngor Diogelu Rhag Ymbelydredd a monitro offer / tiwbiau newydd.</p>	<p>Chris Kalinka, Rheolwr y Gyfarwyddiaeth.</p>	<p>Cwblhawyd.</p>
<p>Rheoliad 10(1)</p>	<p><b>Offer</b></p> <p>Rydym yn argymhell bod y rhestr offer yn cael ei diweddarau i gynnwys;</p>	<p>Y rhestr Offer Radioleg i gael ei diweddarau i gynnwys yr holl safleoedd radioleg ategol (a chwistrellwyr pwysedd).</p>	<p>Paul Johnston.</p>	<p>Tachwedd 2012.</p>

Cyfeirnod IR(ME)R	Argymhelliad	Camau Gweithredu'r BILI	Swyddog Cyfrifol	Dyddiad Targed
	<ul style="list-style-type: none"> <li>- yr holl offer sy'n darparu ymbelydredd ïoneiddio ac yn rheoli faint o ymbelydredd ïoneiddio y datguddir y claf iddo, a'r</li> <li>- offer ym mhob safle ychwanegol o eiddo Cwm Taf, gan ei fod yn gyfrifoldeb i'r cyflogwr.</li> </ul>			
<p>Rheoliad 11 Atodlen 2</p>	<p><b>Hyfforddiant</b></p> <p>Rydym yn argymhell bod Cwm Taf yn sefydlu rhaglen hyfforddiant IR(ME)R briodol ar gyfer yr holl ymarferwyr a'r gweithredwyr. Dylai hon gynnwys, fel sy'n briodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- datblygiad proffesiynol parhaus a ddilynir ar ôl derbyn eu cymwysterau,</li> <li>- hyfforddiant ynglŷn ag offer newydd ac offer na ddefnyddir yn aml,</li> <li>- technegau/dulliau newydd.</li> </ul> <p>Dylai Cwm Taf gadw cofnodion hyfforddi cyfredol, sy'n dangos bod y staff wedi derbyn hyfforddiant digonol ar gyfer y tasgau y mae ganddynt yr hawl i'w cyflawni.</p>	<p>Bydd Cwm Taf yn sefydlu rhaglen IR(ME)R ar gyfer pob ymarferydd a gweithredwr.</p> <p>Bydd Cwm Taf yn llunio cofnodion hyfforddiant, ac yn eu cadw'n gyfredol, er mwyn dangos bod aelodau staff wedi'u hyfforddi'n briodol ar gyfer y tasgau y mae ganddynt hawl i'w cyflawni.</p>	<p>Collette Jones, Radiograffydd Arolygol, Ysbyty Brenhinol Morgannwg.</p> <p>Stephen Montoto, Radiograffydd Arolygol Ysbyty'r Tywysog Siarl.</p>	<p>Mawrth 2013.</p>